O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 935 (Cy. 160)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Court Farm, Torfaen) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025

Gwnaed *30 Gorffennaf 2025*

Yn dod i rym *4 Awst 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Court Farm, Torfaen) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol y gylchfan honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 216 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan Court Farm hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o'r gylchfan honno.